

Arolygiad o Bractis Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Practis Meddygol Troed y Fan.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
Morgannwg

Dyddiad arolygu: 29 Ebrill 2019

Dyddiad cyhoeddi: 30 Gorffennaf 2019

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Gwefan: www.agic.org.uk**

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	6
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	7
	Ansawdd profiad y claf	8
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	13
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	17
4.	Beth nesaf?	20
5.	Sut rydym yn arolygu practisau meddygon teulu.....	21
	Atodiad A – Crynodeb o'n pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yrarolygiad ..	22
	Atodiad B –Cynllun gwella uniongyrchol.....	23
	Atodiad C – Cynllun gwella	24

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:	Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal
Hybu gwelliant:	Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da
Dylanwadu ar bolisi a safonau:	Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Meddygol Troed y Fan ym Meddygfa Aberfan, Stryd Cottrell, Aberfan, Merthyr Tudful, CF48 4QU, sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, ar 29 Ebrill 2019.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o reolwyr arolygu AGIC (gydag un ohonynt yn arwain yr arolygiad a'r llall yn cysgodi), adolygwyr cymheiriaid meddygon teulu a rheolwyr practis ac adolygwr lleyg.

Ystyriodd AGIC i ba raddau y mae'r gwasanaeth yn cyrraedd y Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o feddygon teulu yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

At ei gilydd, gwelsom dystiolaeth fod practis meddygol Troed y Fan yn darparu gofal diogel ac effeithiol. Roedd gan y practis dîm sefydledig a oedd yn gweithio mewn amgylchedd cyfeillgar a dymunol. Roedd pwyslais amlwg ar ddarparu profiad cadarnhaol i'r cleifion.

Ar yr achlysur hwn, nodwyd nifer fach o feysydd gennym lle y gellid gwneud gwelliannau.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Amgylchedd glân a thaclus
- Mae'r staff yn groesawgar a chyfeillgar
- Tystiolaeth o dîm cadarn â strwythur rheoli cefnogol
- Proses o gadw cofnodion ac archwilio o safon dda.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Gwneud gwelliannau i'r wefan er mwyn sicrhau ei bod yn adlewyrchu'r gwasanaethau sydd ar gael yn gywir
- Arddangos adborth gan gleifion ac unrhyw gamau gweithredu a gymerwyd o ganlyniad i hynny
- Rhoi system adolygu gan gymheiriaid ar waith er mwyn cynnal safon y broses o gadw cofnodion.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Ar hyn o bryd, mae practis meddygol Troed y Fan yn darparu gwasanaethau i tua 4872 o gleifion yn ardal Aberfan. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau meddygon teulu a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.

Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys pedwar Meddyg Teulu, dwy Nyrs Gyffredinol gofrestredig, un Cynorthwydd Iechyd ac un Fflebotomydd.

Mae'r practis yn darparu amrywiaeth o wasanaethau, gan gynnwys:

- Clinigau rheoli clefydau cronig ar gyfer clefyd y galon, diabetes, clefyd anadlol/sbirometreg a phwysedd gwaed.
- Clinigau Iechyd Plant
- Fflebotomi
- Mân lawdriniaethau
- Mân Anafiadau
- Ffisiotherapi
- Sganiau uwchsain
- Electrocardiogramau (ECGs)
- Cynenedigol
- Sgrinio sytoleg
- Cynllunio teulu
- Brechiadau
- Archwiliadau meddygol ar gyfer gofynion gyrru, chwaraeon a chyn cyflogi.

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Dywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch gan y staff yn y practis, a gwelsom enghreifftiau o ryngweithio cadarnhaol rhwng y staff a'r cleifion. Roedd y practis yn rhoi pwyslais ar brofiad cadarnhaol i'r cleifion.

Roedd system ar waith gan y practis i gael adborth gan y cleifion, a gwelsom fod prosesau priodol ar waith i reoli unrhyw bryderon a oedd gan y cleifion.

Gwnaethom argymhell y dylid arddangos adborth gan gleifion yn y practis.

Cyn ein harolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Ar ddiwrnod yr arolygiad, siaradodd ein harolygwyr â chleifion hefyd er mwyn cael gwybod am eu profiadau yn y practis.

Derbyniwyd cyfanswm o 19 o holiaduron wedi'u cwblhau. Roedd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn gleifion hirdymor yn y practis (wedi bod yn glaf ers dros ddwy flynedd).

Yn yr holiadur gofynnwyd i'r cleifion sgorio'r gwasanaeth a ddarperir gan y practis meddygon teulu hwn. Cafwyd ymatebion cadarnhaol – dywedodd y mwyafrif o'r cleifion fod y gwasanaeth naill ai'n 'ardderchog' neu'n 'dda iawn'. Dywedodd y cleifion wrthym:

"Mae'r gwasanaeth a ddarperir i mi a'r teulu'n wych. Mae'r staff a'r meddygon yn amyneddgar a chydymdeimladol. Rydym yn ffodus iawn bod y practis hwn yn darparu gwasanaeth i ni"

"Rwy'n hapus iawn â'r gwasanaeth a ddarperir"

Yn yr holiaduron, gofynnwyd i'r cleifion sut y gallai'r practis wella'r gwasanaeth a ddarperir ganddo. Ymysg y gwelliannau a awgrymwyd roedd y canlynol:

"Mwy o apwyntiadau ar gael gyda meddyg o'm dewis"

"Efallai dylai'r practis aros ar agor yn hwyr am un diwrnod yr wythnos i bobl sy'n gweithio tan 6.30pm"

Cadw'n iach

Gwelsom fod amrywiaeth o bosteri a thaflenni gwybodaeth i'r cleifion eu darllen a'u cadw yn ardal aros y practis. Roedd hyn yn golygu bod y practis yn helpu i roi gwybodaeth i'r cleifion am gymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd a'u llesiant eu hunain.

Roedd gwybodaeth a chynghor i ofalwyr yn benodol wedi'u harddangos yn ardal aros y practis. Roedd pedwar aelod o'r staff a gyflogir yn y practis yn hyrwyddwyr gofalwyr y gallai gofalwyr gysylltu â nhw i gael cynghor a chymorth.

Gofal ag urddas

Gwelsom fod y staff yn siarad â'r bobl mewn ffordd broffesiynol a chyfeillgar. Ymdriniwyd ag ymholiadau yn y dderbynfa yn brydlon, gan olygu nad oedd cleifion yn aros am gyfnodau hir.

Roedd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo eu bod wedi cael eu trin gydag urddas a pharch gan staff y practis.

Gwnaethom ystyried yr amgylchedd ffisegol a gwelsom fod cyfrinachedd a phreifatrwydd y cleifion wedi cael eu hystyried a bod y practis yn defnyddio'r amgylchedd ffisegol yn y ffordd orau posibl. Dywedodd rheolwr y practis wrthym y gellid defnyddio ystafell i'r cleifion drafod unrhyw faterion personol neu sensitif er mwyn diogelu eu preifatrwydd.

Gwelsom fod y drysau i ystafelloedd ymgynghori a thriniaeth unigol yn cael eu cadw ar gau pan oedd y staff yn gweld cleifion. Roedd llenni ar gael o amgylch y gwelyau triniaeth.

Roedd gan y practis bolisi ar ddefnyddio hebryngwyr. Roedd yr hawl i ofyn am hebryngwr wedi'i harddangos yn glir yn y dderbynfa ar gyfer y rheini yr oedd angen y gwasanaeth hwn arnynt.

Dywedodd ychydig dros hanner y cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym mai dim ond 'weithiau' y gallent weld eu dewis feddyg.

Gwybodaeth i gleifion

Roedd gan y practis wefan a thaflen fanwl am y practis a oedd yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol i gleifion am y practis a'r amrywiaeth o wasanaethau roedd yn eu cynnig.

Fel y soniwyd yn flaenorol, roedd amrywiaeth o bosteri a thaflenni gwybodaeth ar gael yn yr ardal aros.

Dywedodd pob un ond un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym y byddent yn gwybod sut i gysylltu â'r gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau.

Gwelsom fod y wefan yn rhoi'r dewis i ofyn am bresgripsiynau amlroddadwy ar-lein, ond nid oedd y practis yn cynnig y gwasanaeth hwn.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod y wefan yn adlewyrchu'r gwasanaethau sydd ar gael.

Cyathrebu'n effeithiol

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith bob amser.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn teimlo bod pethau bob amser yn cael eu hesbonio iddynt yn ystod eu hapwyntiad mewn ffordd y gallant ei deall. Gwnaethant ddweud wrthym hefyd eu bod yn cael eu cynnwys gymaint ag yr hoffent yn y penderfyniadau a wneir am eu gofal.

Gofal amserol

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur wrthym eu bod yn fodlon iawn neu'n gymharol fodlon ar oriau agor y practis. Cadarnhaodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn ei chael hi'n 'gymharol hawdd' cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt.

Gwelsom y system ar gyfer apwyntiadau bob dydd. Roedd y rhain yn cael eu rhannu yn apwyntiadau a drefnir ymlaen llaw, apwyntiadau a drefnir ar y diwrnod hwnnw, apwyntiadau a neilltuir i gleifion sy'n gweithio yn ystod y dydd ac apwyntiadau brys a brysbennir gan un o'r meddygon teulu cyn cael eu neilltuo.

Pan ofynnwyd iddynt ddisgrifio eu profiad cyffredinol o drefnu apwyntiad, disgrifiodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu profiad fel un 'da iawn' neu 'dda'.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn ystyried rhoi system gwneud apwyntiadau ar-lein ar waith yn y dyfodol agos.

Gwnaethom ystyried nifer o gofnodion cleifion a gwelsom fod prosesau ar waith ar gyfer atgyfeirio cleifion at wasanaethau arbenigol; gweithredwyd ar y rhain mewn modd amserol. Casglwyd canlyniadau atgyfeiriadau gan reolwr y practis er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael unrhyw apwyntiadau dilynol angenrheidiol.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Mae'r practis mewn adeilad pwrpasol. Mae'r holl gyfleusterau ar y llawr gwaelod, ac maent yn hygyrch i bobl â chyfyngiadau symudedd. Nifer gyfyngedig o leoedd parcio oedd ar gael ar y stryd y tu allan i'r feddygfa, ond roedd nifer o leoedd parcio dynodedig i'r anabl.

Gellid cael mynediad i'r adeilad drwy esgynfa ac roedd yn hygyrch i gadeiriau olwyn. Roedd drysau ffrynt dwbl nad oeddent yn rhai awtomatig, ond roedd cloch hygyrch ar gael i alw am gymorth gan staff y dderbynfa a fyddai'n helpu pobl i ddod i mewn i'r adelad.

Roedd cadeiriau uwch yn y dderbynfa ar gyfer y cleifion hynny nad oeddent yn gallu defnyddio cadeiriau cyffredinol. Nid oedd gan ddesg y dderbynfa hatsh is i ddefnyddwyr cadair olwyn. Dywedwyd wrthym fod defnyddwyr cadair olwyn yn cael defnyddio'r drws ar ochr y dderbynfa os oedd angen.

Hawliau pobl

Roedd yn amlwg bod y practis yn ymwybodol o'i gyfrifoldebau o ran hawliau pobl.

Gwranddo a dysgu o adborth

Roedd gweithdrefn gwyno fewnol ar waith ac roedd gwybodaeth am sut i wneud cwyn ffurfiol wedi'i harddangos yn yr ardal aros. Rheolwr y practis oedd yn gyfrifol am ymchwilio i gwynion a gwelsom y system gofnodi ar gyfer hyn. Roedd gwybodaeth ar gael i gleifion yn y practis am broses gwynion y GIG, 'Gweithio i Wella'.

Yn ogystal, roedd blwch awgrymiadau i gleifion ar ddesg y dderbynfa wrth ymyl y blwch presgripsiynau amlroddadwy. Roedd hyn yn gwahodd cleifion i wneud sylwadau am y gofal a'r driniaeth a ddarperir iddynt yn y practis. Nid oedd y practis yn arddangos adborth i'r cleifion, boed yn ganmoliaeth neu'n welliannau a wnaed.

Nid oedd holiadur i gleifion y practis yn cynnwys adran er mwyn i'r cleifion nodi eu cefndir ethnig nac i nodi a oedd ganddynt anabledd. Gwelsom hefyd nad oedd gwybodaeth cyswllt AGIC ar gael yn y weithdrefn gwyno.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis ystyried arddangos adborth i gleifion yn sgîl yr awgrymiadau am sut y gellir gwella'r gwasanaeth a'r sylwadau cadarnhaol.

Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holiaduron yn rhoi'r cyfle i gleifion nodi nodweddion gwarchodedig.

Rhaid i'r practis gael system gwyno sy'n darparu manylion cyswllt AGIC.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Gwelsom fod gan y practis drefniadau i hybu gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Gwelsom dîm o staff a oedd yn canolbwyntio ar y claf ac yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i'w cleifion.

Roedd y sampl o gofnodion cleifion a adolygwyd gennym o safon dda.

Mae angen gwella'r weithdrefn storio meddyginiaeth y mae'n rhaid ei chadw mewn oergell o ran y gwiriadau tymheredd dyddiol.

Mae angen storio'r cyfarpar dadebru brys mewn lleoliad mwy hygyrch yn y practis.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Wrth fynd o amgylch adeilad y practis, gwelsom fod yr holl ardaloedd a oedd yn agored i gleifion yn lân ac yn glir rhag rhwystrau, a oedd yn lleihau'r risg o faglu a chwympo. Gwelsom fod adeilad y practis mewn cyflwr da y tu mewn a'r tu allan.

Roedd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn ei bod hi'n 'hawdd iawn' mynd i mewn i adeilad y practis.

Roedd y cyfarpar diogelwch tân yn cael ei gynnal a'i gadw'n flynyddol ac yn cael ei gadw mewn lleoliad priodol yn y practis. Dywedwyd wrthym fod y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ac y byddent yn rhoi gwybod am unrhyw bryderon i reolwr y practis neu uwch-aelod o'r staff.

Atal a rheoli heintiau

Ni leisiwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y practis meddyg teulu; roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn bod y practis meddygon teulu yn 'lân iawn' neu'n 'gymharol lân'.

Cadarnhaodd y staff fod cyfarpar diogelu personol ar gael iddynt, megis menig a ffedogau plastig untro, er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio. Roedd yr ardaloedd trin clinigol a welsom yn lân. Fodd bynnag, gwelsom fod strbyn profi troeth wedi'i adael ar fwrdd ar ôl ei ddefnyddio a allai beri risg o groes-heintio.

Gwelsom fod cyfleusterau golchi a sychu dwylo ar gael yn yr ardaloedd clinigol a'r toiledau. Roedd peiriannau glanweithydd dwylo ar gael o gwmpas y practis hefyd.

Roedd gwastraff clinigol yn cael ei storio'n ddiogel nes y gallai gael ei gasglu'n ddiogel.

Roedd polisi rheoli heintiau clir a manwl ar waith.

Gwelsom fod cofnodion staff unigol wedi cael eu cadw mewn perthynas â'u statws imiwneiddio Hepatitis B, er mwyn helpu i ddiogelu'r staff a'r cleifion. Roedd y cofnodion hyn yn cael eu cadw gan reolwr y practis.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau y caiff eitemau clinigol eu gwaredu'n briodol ac yn amserol ar ôl eu defnyddio.

Rheoli meddyginiaethau

Gwelsom fod cofnod o archwiliadau rheolaidd o offer a chyffuriau i'w defnyddio mewn argyfwng. Roedd dwy set o gyfarpar dadebru, un set ar gyfer pob pen o'r adeilad. Fodd bynnag, roedd angen mynd drwy nifer o ddrysau wedi'u cloi er mwyn cael gafael arno. Gwnaethom drafod hyn gyda'r practis a chytunodd i symud y cyfarpar hwn i leoliad mwy hygrych. Gwelsom gofnodion hyfforddiant y staff a oedd yn dangos bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant blynyddol mewn dadebru cardiobwlmonaidd (CPR).

Gwelsom fod cyffuriau'n cael eu storio'n ddiogel ar y safle. Dywedwyd wrthym nad oedd cyffuriau a reolir yn cael eu cadw yn y practis. Gwelsom fod yr oergell feddyginiaethau ar glo a bod ganddi'r cyfarpar priodol ar gyfer monitro'r tymheredd. Fodd bynnag, ar nifer o achlysuron, nid oedd y tymheredd uchaf na'r tymheredd isaf wedi cael eu cofnodi. Roedd y rhain yn cyd-fynd â'r adegau pan nad oedd y staff yn y practis ac roeddent yn anghyson. Wrth siarad â'r staff, cawsom ein sicrhau y byddai'r protocolau yn cael eu rhoi ar waith petai'r tymheredd yn gostwng y tu allan i'r ffiniau derbyniol.

Roedd y practis wedi rhoi proses o ddirprwyo'r cyfrifoldebau hyn ar waith cyn i ni orffen yr arolygiad.

Gallai cleifion gael presgripsiynau amlroddadwy drwy alw yn y feddygfa neu ffonio.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod y cyfarpar dadebru brys mewn lleoliad hygyrch yn adeilad y practis.

Rhaid i'r practis sicrhau bod tymereddau'r oergell feddyginiaeth yn cael eu cofnodi'n ddyddiol.

Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg

Gwelsom fod polisïau a gweithdrefnau diogelu plant ac oedolion ar waith a bod yr uwch-bartner wedi cael ei benodi yn arweinydd diogelu'r practis.

Ar ôl archwilio sampl o gofnodion cleifion, llwyddwyd i gadarnhau bod plant ag anghenion diogelu yn cael eu nodi fel y bo angen. Gwnaethom argymhell bod y practis yn rhoi system dros dro ar waith ar gofnodion cleifion priodol lle mae materion diogelu wedi'u hamlygu eisoes.

Gwelsom fod y staff wedi cael hyfforddiant priodol ar ddiogelu plant ac oedolion. Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi cael hyfforddiant diogelu lefel uwch, hyd at lefel tri. Roedd hyn yn briodol ar gyfer eu rôl.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd gan y practis drefniadau addas i roi gwybod am ddigwyddiadau sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a digwyddiadau arwyddocaol. Rheolwr y practis oedd yn gyfrifol am gofnodi'r rhain. Gwelsom fod unrhyw ddigwyddiadau pwysig yn cael eu trafod yn ystod cyfarfodydd tîm a gynhelir bob chwe wythnos.

Gwnaethom siarad ag aelodau o dîm y practis ar ddiwrnod ein harolygiad ac roeddem wedi llwyddo i gadarnhau bod y staff yn cael eu hannog a'u grymuso i godi unrhyw bryderon a all fod ganddynt am ddiogelwch cleifion a/neu eu diogelwch eu hunain.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Roedd y uwch-bartner yn cyflawni sganiau uwchsain ar y safle ar gyfer mathau penodol o anhwylder gyda'r bwriad o sicrhau y gall cleifion gael triniaethau arbenigol pellach yn gynt.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Gwelsom fod polisïau a gweithdrefnau llywodraethu gwybodaeth glir ar waith. Roedd yr aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn gwybod sut i gael gafael ar y wybodaeth hon.

Roedd cofnodion cleifion yn cael eu storio a'u diogelu'n briodol er mwyn atal mynediad heb awdurdod iddynt.

Cadw cofnodion

Edrychom ar sampl o gofnodion cleifion ac ar y cyfan, roeddent o safon dda, gan gefnogi'r gofal a'r driniaeth a roddir i'r cleifion.

Gwnaethom argymhell rhoi system adolygu gan gymheiriaid o nodiadau clinigol rhwng meddygon teulu yn y practis er mwyn sicrhau bod safonau'n cael eu cynnal.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis roi proses adolygu gan gymheiriaid ar waith er mwyn cynnal y safonau uchel o ran cadw cofnodion yn unol â'r safonau proffesiynol derbyniol.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Gwelsom dîm cadarn dan arweiniad rheolwr practis trefnus iawn a'i nod oedd darparu profiad cadarnhaol i'r cleifion.

Roedd cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal yn y practis, gan roi'r cyfle i'r staff drafod unrhyw bryderon ac i rannu gwybodaeth.

Gwnaethom argymhell y dylid dilyn proses fanylach ar gyfer cadw cofnodion hyfforddiant y staff yn y practis.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Gwelsom dîm o staff a oedd yn canolbwyntio ar y cleifion a oedd yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaethau o safon uchel. Gwelsom fod y practis yn gweithio fel tîm cydlynol agos ar y cyfan, ac roedd cyfleoedd da i bob aelod o'r staff gyfathrebu a chyfrannu at ymdrechion i ddatblygu'r practis.

Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y tîm rheoli a bod cyfleoedd hyfforddiant da ar gael iddynt. Roedd yr agwedd gefnogol hon yn amlwg gyda chynorthwyydd gofal iechyd yn cael ei gefnogi drwy hyfforddiant nyrsys a fflebotomydd yn cael ei gefnogi i ddod yn gynorthwyydd gofal iechyd.

Gwelsom fod cyfarfodydd staff rheolaidd yn cael eu cynnal. Roedd cofnodion yn cael eu llunio ar gyfer y cyfarfodydd hyn ac yn cael eu rhannu gyda'r staff os nad oeddent wedi gallu eu mynychu. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo y gallent godi unrhyw bryderon, neu unrhyw faterion yn ystod y cyfarfodydd hyn neu unrhyw bryd arall. Roedd y staff o'r farn y byddai'r tîm rheoli yn gwrando arnynt ac yn ymdrin ag unrhyw bryderon neu faterion.

Roedd y practis yn cynnal amrywiaeth eang o archwiliadau er mwyn helpu i lywio gwelliant. Rheolwr y practis oedd yn cynnal yr archwiliadau hyn ac yn eu rhoi ar waith.

Dywedwyd wrthym fod un o nyrsys y practis wedi ymddeol yn rhannol ac y bydd yr uwch-bartner yn ymddeol yn y dyfodol agos. Nid oedd unrhyw gynllun wrth gefn ar waith er mwyn ymdopi â'r newid o ran pwysau yn y practis. Gwnaethom argymhell y dylid creu'r cynllun mewn partneriaeth â'r bwrdd iechyd lleol er mwyn sicrhau parhad gwasanaeth i gleifion.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis lunio cynllun wrth gefn ar y cyd â'r bwrdd iechyd lleol gyda'r bwriad o gynnal gwasanaethau i gleifion.

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

Roedd y practis wedi ymsefydlu'n gadarn fel tîm ac roedd sawl aelod o'r staff wedi cael eu cyflogi yno ers sawl blwyddyn.

Roedd y staff yn gallu disgrifio eu rolau a'u cyfrifoldebau, ac yn dangos dealltwriaeth dda o weithdrefnau'r practis.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael cynnig cyfleoedd da i ymgymryd â hyfforddiant, gyda chyfuniad o sesiynau hyfforddi ar-lein a mewnol yn cael eu trefnu. Gwelsom sampl o ffeiliau'r staff a nodwyd gennym fod rhai tystysgrifau yn cynnig tystiolaeth o'r hyfforddiant a fynychwyd. Roedd rheolwr y practis yn sicrhau bod y staff clinigol ac anghlinigol yn cydymffurfio â hyfforddiant. Nid oedd y meddygon teulu yn cadw eu cofnodion hyfforddiant yn y practis, er bod rheolwr y practis yn cadw eu manylion cydymffurfio.

Roedd y staff yn cael arfarniadau rheolaidd ac roedd cyfleoedd hyfforddiant yn cael eu nodi o ganlyniad i hynny.

Gwelsom fod deunyddiau sefydlu'r staff ar gael, ond nad oedd tystiolaeth bod y rhain yn cael eu rhoi i'r staff. Roedd yr un peth yn wir am bolisiâu'r practis, ac nid oedd unrhyw gofnodion i ddangos bod y staff wedi'u darllen.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis gadw cofnodion i ddangos bod y staff wedi cael copi o'r deunyddiau sefydlu.

Rhaid i'r practis gadw cofnodion i ddangos bod y staff wedi darllen a deall y polisïau sy'n briodol ar gyfer eu rolau yn y practis.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu practisau meddygon teulu

Fel arfer, rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau o bractisau meddygon teulu. Bydd practisau meddygon teulu yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn er mwyn iddynt allu gwneud trefniadau i sicrhau bod y practis yn rhedeg fel arfer, a bod yr arolygiad yn tarfu cyn lleied â phosibl ar y cleifion.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Rydym yn edrych ar y ffordd y mae practisau meddygon teulu yn cyrraedd [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#). Rydym yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau meddygon teulu.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu [practisau meddygon teulu](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn			

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Gwasanaeth: Practis Meddygol Troed y Fan

Dyddiad arolygu: 29 Ebrill 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion ynglŷn â sicrwydd yr oedd angen mynd i'r afael â nhw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Practis Meddygol Troed y Fan

Dyddiad arolygu: 29 Ebrill 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
	1.1 Hybu, diogelu a gwella iechyd			
	4.1 Gofal ag Urddas			
Rhaid i'r practis sicrhau bod y wefan yn adlewyrchu'r gwasanaethau sydd ar gael.	4.2 Gwybodaeth i Gleifion	Mae'r wefan yn newydd i'r feddygfa ac yn cael ei datblygu o hyd. Rydym yn gweithio i sicrhau bod y wefan yn unol â'r wybodaeth orfodol ofynnol a'i bod yn ffordd gyfathrebu fwy cynhwysfawr i'r feddygfa a'r cleifion.		

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	3.2 Cyfathrebu'n effeithiol			
	5.1 Mynediad amserol			
	6.1 Cynllunio Gofal er mwyn hyrwyddo annibyniaeth			
	6.2 Hawliau pobl			
Dylai'r practis ystyried arddangos adborth i gleifion yn sgîl yr awgrymiadau am sut y gellir gwella'r gwasanaeth a'r sylwadau cadarnhaol. Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holiaduron yn rhoi'r cyfle i gleifion nodi nodweddion gwarchodedig. Rhaid i'r practis gael system gwyno sy'n darparu manylion cyswllt AGIC.	6.3 Gwrandao a Dysgu o Adborth	Rydym yn datblygu hysbysfwrdd sy'n benodol i'r cleifion (yn yr ardal aros) ac i ddyblygu'r wybodaeth hon ar ein gwefan gan greu fforwm holi ac ateb ar gyfer pob un o'n cleifion. Byddwn yn diweddarau ein gweithdrefn gwyno i gynnwys manylion cyswllt AGIC		

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch			
Rhaid i'r practis sicrhau y caiff eitemau clinigol eu gwaredu'n briodol ac yn amserol ar ôl eu defnyddio.	2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi	Ailystyried yr hyfforddiant mewnol i bwysleisio pwysigrwydd croes-heintio a phwysigrwydd gwaredu samplau mewn modd diogel ac amserol		
Rhaid i'r practis sicrhau bod y cyfarpar dadebru brys mewn lleoliad hygrych yn adeilad y practis. Rhaid i'r practis sicrhau bod tymereddau'r oergell feddyginiaeth yn cael eu cofnodi'n ddyddiol.	2.6 Rheoli Meddyginiaethau	Cymerwyd camau gweithredu yn y feddygfa er mwyn symud yr holl gyfarpar brys i un ardal ganolog. Dylid cael thermomedr newydd ar gyfer yr oergell er mwyn sicrhau bod pob diwrnod yn cael ei fonitro a'i gofnodi.		
	2.7 Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed			

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	2.9 Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol			
	3.1 Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol			
	3.3 Gwellu Ansawdd, Ymchwil ac Arloesi			
	3.4 Technoleg Llywodraethu Gwybodaeth a Chyfathrebu			
Rhaid i'r practis roi proses adolygu gan gymheiriaid ar waith er mwyn cynnal y safonau uchel o ran cadw cofnodion yn unol â'r safonau proffesiynol derbyniol.	3.5 Cadw cofnodion	Dylai'r uwch-bartneriaid drefnu gwaith datblygu parhaus er mwyn rhoi proses adolygu gan gymheiriaid ar waith o ran cofnodion clinigol		
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r practis lunio cynllun wrth gefn ar y cyd â'r bwrdd iechyd lleol gyda'r bwriad o gynnal gwasanaethau i gleifion.	Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd	Gohebu parhaus gyda'r Bwrdd Iechyd Prifysgol Rydym yn parhau i hysbysebu hefyd		
Rhaid i'r practis gadw cofnodion i ddangos bod y staff wedi cael copi o'r deunyddiau sefydlu. Rhaid i'r practis gadw cofnodion i ddangos bod y staff wedi darllen a deall y polisiau sy'n briodol ar gyfer eu rolau yn y practis.	7.1 Y Gweithlu	Bydd y dystiolaeth Sefydlu yn cael ei chynnwys yn ffeiliau'r staff at ddibenion tystiolaeth Meini prawf diwygiedig o ran polisiau'r staff/meddygfa gan gynnal hyfforddiant mewnol, a chymeradwyo polisiau newydd/hyfforddiant		

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): Dr T Lock

Teitl swydd: Uwch-bartner

Dyddiad: 14.06.2019